



Aseiad Strwythuredig 2015

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2015

Cyhoeddwyd: Ionawr 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 736A2015

Statws yr adroddiad

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.

Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru –

swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Andrew Doughton, Claire Worrall, Dave Thomas a John Herniman

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio gwella'n barhaus, ond mae'n wynebu sawl her yn y tymor byr, ac ar yr un pryd yn gweithio i drawsnewid gwasanaethau dros y tair blynedd nesaf

Crynodeb

Y Cyd-destun	4
Y Prif Gasgliadau	4
Argymhellion	6

Canfyddiadau Manwl

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol ond mae maint yr arbedion sydd eu hangen yn ystod y tair blynedd nesaf yn golygu y gallai fod yn fwyfwy anodd cynnal y sefyllfa ariannol a ddymunir	8
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd, gyda thystiolaeth o welliannau parhaus i'w drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg a pherfformiad	11
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod agenda uchelgeisiol ar gyfer newid, ac yn gynyddol yn targedu'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau i'w helpu i gyflawni yn erbyn ei amcanion newid a'i nodau corfforaethol	24

Atodiadau

Argymhellion o asesiad strwythuredig 2014 a chrynodeb o gynnydd	29
---	----

Crynodeb

Y Cyd-destun

1. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn gyfrifol am ofal iechyd dros 600,000 o bobl sy'n byw yn ne ddwyrain Cymru. Mae ganddo dros 13,000 o staff, gan gynnwys dros 1,000 o feddygon ysbyty a meddygon teulu, 250 o feddygon ymgynghorol a thros 5,000 o staff nyrsio. Mae ganddo gyllideb o bron £1.1 biliwn ac mae'n derbyn dros 160,000 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu bob blwyddyn, yn ogystal â nifer tebyg o ymweliadau gofal heb ei drefnu yn ei Adran Achosion Brys a'i Unedau Mân Anafiadau.
2. Mae'r Asesiad Strwythuredig yn archwilio trefniadau o fewn y Bwrdd Iechyd sy'n cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Fel y blynyddoedd cynt, aseswyd cadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu a'r rheolaeth ar ffactorau galluogi allweddol sy'n cefnogi defnydd effeithiol o adnoddau yn rhan o waith 2015. Wrth archwilio'r meysydd hyn, rydym wedi ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn materion gwella a nodwyd y llynedd¹. Roedd y gwaith archwilio wedi'i drefnu o amgylch y meysydd canlynol:
 - **Cynllunio a rheoli ariannol**, gan gynnwys iechyd ariannol, cynllunio ariannol a gwella costau.
 - **Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes**, gan gynnwys cynllunio strategol, strwythur, trefniadau llywodraethu, rheoli perfformiad, rheolaeth fewnol a llywodraethu gwybodaeth.
 - **Ffactorau i alluogi defnydd effeithiol o adnoddau**, gan gynnwys rheoli newid, y gweithlu, ymgysylltu a threfniadau i ddefnyddio technoleg i gefnogi busnes a darpariaeth gwasanaeth.

Y Prif Gasgliadau

3. Ein casgliad cyffredinol o waith ar asesiad strwythuredig 2015 yw bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio sicrhau gwelliant parhaus, ond ei fod yn wynebu sawl her yn y tymor byr, a hefyd yn gweithio i drawsnewid gwasanaethau dros y tair blynedd nesaf. Nodir isod y rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn.

Cynllunio a rheoli ariannol

4. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol ond mae maint yr arbedion sydd eu hangen yn ystod y tair blynedd nesaf yn golygu y gallai fod yn fwyfwy anodd cynnal y sefyllfa ariannol a ddymunir.

¹Nodir argymhellion a wnaed yn 2014, ynghyd â chrynodeb o gynnydd yn [Atodiad 1](#).

5. Yn benodol, daethom i'r casgliad canlynol:

- Yn 2014-15, fel y blynyddoedd cynt, dangosodd y Bwrdd Iechyd Reolaeth Ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn. Bu'r rheolaeth hon, ynghyd â'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, yn fodd i sicrhau cyllideb gytbwys yn 2014-15; ac
- Fe geir diffyg yn yr arbedion a gynlluniwyd yn 2015-16, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r diffyg a gynlluniwyd ganddo, gan awgrymu nad oes modd sicrhau na chynnal cyllideb gytbwys yn y tymor canolig.

Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

6. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd, gyda thystiolaeth o welliannau parhaus i'w drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg a pherfformiad.

7. Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- Fod cynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd yn creu sail dda i symud y sefydliad yn ei flaen, sy'n llywio gweithgarwch gwella, ond bod ei ddyfodol yn dibynnu'n drwm ar gymeradwyo'r achos busnes ar gyfer Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol.
- Bod y Bwrdd Iechyd wedi elwa ar strwythur sefydlog fel sefydliad, ond bod angen iddo ystyried a yw'r strwythur presennol yn rhoi digon o gefnogaeth i foderneiddio gwasanaethau ac ar gyfer atebolrwydd gweithredol.
- Bod gan y sefydliad Fwrdd effeithiol a'i fod yn dangos ei fod yn rheoli materion a risgiau presennol; fodd bynnag, bydd angen datblygu ei drefniadau i fodloni deddfwriaeth newydd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Bod y strwythur pwyllgorau'n cefnogi trefniadau llywodraethu da, a bod tystiolaeth bod y trefniadau'n gwella'n barhaus.
- Bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ei wybodaeth reoli'n gyson i'w helpu i sicrhau bod yr wybodaeth honno'n cael ei chyflwyno a'i defnyddio i gefnogi trefniadau effeithiol wrth graffu a gwneud penderfyniadau.
- Bod trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli risg yn cynorthwyo'r Bwrdd a'i bwyllgorau i reoli risgiau allweddol i'r sefydliad, a bod gwaith ar y gweill i atgyfnerthu'r trefniadau hyn eto.
- Bod y rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan wrth fodloni gofynion sicrwydd cyfredol. Mae angen trefniadau mwy eglur i oruchwylio'r camau a wnaed yn erbyn argymhellion archwilio allanol, er bod trefniadau da ar waith i adrodd wrth bwyllgor yn benodol ar asesiad strwythuredig y llynedd.
- Bod fframwaith priodol wedi'i sefydlu i gefnogi trefniadau da ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, bod trefniadau Caldicott wedi'u datblygu'n dda, a bod lle i sicrhau gwelliannau pellach.
- Bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth briodol am ei berfformiad ac y gallai ei waith addawol wrth ddatblygu canlyniadau roi ffocws mwy cytbwys i'r Bwrdd Iechyd er

mwyn mesur effaith ei ymdrechion, ond bod mynediad at ofal wedi'i gynllunio a heb ei drefnu o dan bwysau cynyddol.

Ffactorau sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

8. Mae'r Bwrdd lechyd wedi gosod agenda uchelgeisiol ar gyfer newid, ac yn gynyddol yn targedu'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau i'w helpu i gyflawni yn erbyn ei amcanion newid a'i nodau corfforaethol.
9. Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:
 - Fod rhaglenni newid strategol yn dechrau tanategu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) a bod arweinwyr mentrau newid cymhleth yn derbyn cefnogaeth gynyddol yn sgil y capasiti ychwanegol i reoli newid.
 - Bod y Bwrdd lechyd yn cymryd camau perthnasol i ymdrin â risgiau gweithredol i'r gweithlu, ond y gallai gyfleu'r gwaith o drawsnewid y gweithlu yn well fel rhan integredig o'r CTCI ac o'r strategaeth Dyfodol Clinigol.
 - Bod y Bwrdd lechyd yn dangos ymrwymiad i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyhoedd, cleifion, staff a rhanddeiliaid ac yn parhau i adeiladu ar waith partneriaeth, ac i ymrwymo i'r gwaith hwnnw.
 - Bod y Bwrdd lechyd yn wynebu sawl her o ran ei ddefnydd o TG ac o systemau i gefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol a moderneiddio gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys cytuno ar strategaeth TG tymor hwy ac ymdrin â risgiau'n gysylltiedig â'r seilwaith TG a gwytnwch gwasanaethau.
10. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn yn adran fanwl yr adroddiad hwn.

Argymhellion

11. Yn gynharach yn 2015, yn rhan o'n Hadroddiad Archwilio Blynyddol a'n hasesiad strwythuredig ar gyfer 2014, cyflwynwyd sawl argymhelliad gennym i'r Bwrdd lechyd. Gwnaed hynny gan ddisgwyl y byddai'n cymryd mwy na chwe mis i ymdrin â llawer o'r argymhellion dan sylw ac i ymwreiddio trefniadau gwaith newydd, oherwydd cymhlethdod y camau yr oedd angen eu cymryd. Ym mis Hydref 2015, rhoddodd y Bwrdd lechyd y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch cynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny. Rydym wedi cynnwys y cynnydd a adroddwyd gan y Bwrdd lechyd wrth ymateb i'r argymhellion yn **Atodiad 1**, ynghyd â'n sylwebaeth ein hunain ar y cynnydd a wnaed. Mae'r Bwrdd lechyd wedi arddangos cynnydd mewn sawl maes, ond mae mwy eto i'w wneud i fynd i'r afael yn llawn ag argymhellion y llynedd.
12. Nodir isod argymhellion ychwanegol yn deillio o'r gwaith ar asesiad strwythuredig 2015. Byddwn yn parhau i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed yn asesiadau strwythuredig 2014 a 2015 yn rhan o raglen archwilio'r flwyddyn nesaf.

Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

- A1 Adolygu'r angen i newid y strwythur trefniadol er mwyn gwella atebolrwydd a chefnogi gwaith i foderneiddio gwasanaethau.
- A2 Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn paratoi'n ddigonol i fodloni'r gofynion deddfwriaethol yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- A3 Datblygu a gweithredu trefniadau ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwiliadau allanol.

Trefniadau ar gyfer defnyddio adnoddau

- A4 Datblygu cerrig milltir clir ar gyfer pob un o'r Cynlluniau Newid Gwasanaeth a'r cynlluniau cyflawni. Dylid defnyddio'r rhain er mwyn monitro ac, os oes angen, ymyrryd er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei nodau o fewn amserlen dderbyniol.
- A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried cynyddu'r buddsoddiad mewn technoleg yn yr amgylchiadau canlynol:
 - os bydd hynny'n arwain at ddychwelyd mwy o arbedion arian parod i'r holl sefydliad*; neu
 - os yw hynny'n dull effeithlon o alluogi gwaith i foderneiddio gwasanaethau clinigol ar raddfa ehangach*.

*Mae angen ymarfer trwyadl i wireddu buddiannau ar gyfer hyn.

Canfyddiadau manwl

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio gwella'n barhaus, ond mae'n wynebu sawl her yn y tymor byr, ac ar yr un pryd yn gweithio i drawsnewid gwasanaethau dros y tair blynedd nesaf

13. Ceir crynodeb isod o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn, wedi'u rhannu'n grwpiau o dan y themâu cynllunio a rheolaeth ariannol, trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes, a ffactorau sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau. Mae canfyddiadau'n amlygu cryfderau a datblygiadau, yn ogystal â'r risgiau a'r heriau sydd yn dal o flaen y Bwrdd Iechyd.

Cynllunio a rheolaeth ariannol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol ond mae maint yr arbedion sydd eu hangen yn ystod y tair blynedd nesaf yn golygu y gallai fod yn fwyfwy anodd cynnal y sefyllfa ariannol a ddymunir.

14. Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:
- Yn 2014-15, fel y blynyddoedd cynt, dangosodd y Bwrdd Iechyd reolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn. Bu'r rheolaeth hon, ynghyd â'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, yn fodd i sicrhau cyllideb gytbwys yn 2014-15; ac
 - Fe geir diffyg yn yr arbedion a gynlluniwyd yn 2015-16, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn bodloni'r diffyg y mae wedi'i gynllunio, gan awgrymu nad oes modd sicrhau na chynnal cyllideb gytbwys yn y tymor canolig.
15. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn yn [Nhabl 1](#).

Tabl 1: Rheolaeth ariannol 2014-15

Cryfderau a datblygiadau

Sefyllfa ariannol 2014-15

- Aeth y Bwrdd lechyd ati'n effeithiol i bennu a dyrannu cyllidebau dirprwyedig ar ddechrau'r flwyddyn:
 - Yn y Cynllun Blynyddol, nodwyd mai £44.8 miliwn oedd cyfanswm yr her ariannol ar gyfer blwyddyn 2014-15. O blith y cyfanswm hwn, nodwyd £19 miliwn mewn cynlluniau arbed a £6.84 miliwn mewn cynlluniau gwella costau. Gadawodd hyn ddiffyg wedi'i gynllunio o £19 miliwn.
 - £16.8 miliwn oedd cyfanswm y cynlluniau arbed i ryddhau arian parod, a'r rhaglenni a nodwyd i gyfyngu ar gostau o fewn y gyllideb. Adroddodd y Bwrdd lechyd ei fod wedi cyflawni £14.2 miliwn, neu 84 y cant o'r cyfanswm.
- Cafwyd trefniadau monitro a rhagolygon effeithiol drwy gydol y flwyddyn ar lefel weithredol a strategol:
 - Roedd trefniadau ar gyfer goruchwyliaeth ariannol ar waith drwy'r Bwrdd a'i Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Roedd rheolaeth ariannol weithredol yn cynnwys llinellau atebolrwydd clir, ac roedd partneriaid busnes cyllid yn rhoi cefnogaeth i adrannau.
 - Drwy gydol 2014-15, adroddodd y Bwrdd lechyd ei fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r diffyg cynlluniedig o £19 miliwn drwy ddefnyddio cyfuniad o gynlluniau i wella costau, osgoi costau ac arbed. I gefnogi hyn, cafodd nifer o fesurau wrth gefn hefyd eu llunio rhag ofn y byddai angen cymryd camau pellach i fodloni'r targed i fantoli'r cyfrifon.
- Llwyddodd y Bwrdd lechyd i fodloni'r gofyniad ar ddiwedd y flwyddyn i sicrhau gwariant o fewn y terfyn adnoddau reffeniw, drwy gyfyngu ar gostau, lleihau gweithgarwch a chydweithio â rhanddeiliaid:
 - Cyflawnwyd y gwahaniaeth rhwng yr £14.2 miliwn a sicrhawyd drwy gynlluniau arbed a mesurau i gyfyngu ar gostau a'r £25.84 miliwn a geisiwyd yn wreiddiol, drwy weithgareddau fel rhaglenni byrdymor i gyfyngu ar gostau ar lefel adrannol, cytuno ar broffil ad-dalu diwygiedig ar gyfer rhaglen Eiddilwch Llywodraeth Cymru, a lleihau gwariant ar gontractau allanol. Nid yw'r mathau hyn o weithgareddau'n gylchol.
 - Darparwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2014, ac fe barhaodd y Bwrdd lechyd i sicrhau gwelliannau o ran costau ac arbedion i ryddhau arian parod.
 - Cyrhaeddwyd y targed i fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, gyda swm cymedrol o £407,000 yn weddill.

Cryfderau a datblygiadau

Sefyllfa ariannol 2015-16

- Mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio paratoi gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y tymor canolig, ac fe barhaodd y cynlluniau a'r rheolaeth ariannol gadarn a welwyd yn ystod y flwyddyn yn 2014-15 yn 2015-16.
- Yng nghynllun tair blynedd cymeradwy'r Bwrdd lechyd nodir diffygion net ym mhob blwyddyn: yn y flwyddyn gyntaf - 2015-16 £19.7 miliwn, ym mlwyddyn dau - 2016-17 £13.8 miliwn, ac £11.5 miliwn ym mlwyddyn tri - 2017-18. Mae'r Bwrdd lechyd wedi nodi y bydd angen mynd i'r afael â'r diffygion net hyn drwy gyfleoedd pellach i effeithlonni, a thrwy newid gwasanaethau yn bennaf. Nodir hefyd y bydd canlyniadau blwyddyn un yn cael effaith ar faint yr her sy'n weddill ar gyfer blynyddoedd dau a thri.
- Cyfanswm yr her ariannol a nodwyd yn wreiddiol ar gyfer 2015-16 yn CTCI y Bwrdd lechyd oedd £72.4 miliwn, ac fe dybiwyd y byddai cyllid ychwanegol o £33.7 miliwn ar gael ar gyfer hyn. Roedd hyn yn gadael her ariannol o £38.7 miliwn cyn ystyried y cyfleoedd posibl a ddeuai yn sgil effeithlonni gwell ac effaith cynlluniau arloesol i newid gwasanaethau:
 - Mae £19 miliwn o ostyngiad mewn costau wedi'i nodi yn y gyllideb, sy'n cynnwys £13 miliwn mewn arbedion a £6 miliwn arall yn sgil cyfyngu ar gostau. Mae hyn yn gadael £19.7 miliwn wedi'i or-ymrwymo neu ddiffyg wedi'i gynllunio o £19.7 miliwn, ac mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio canfod cyfleoedd pellach i wella costau ac arbed arian er mwyn lleihau'r diffyg posibl.
 - Mae'n glir bod lefel yr arbedion sydd wedi'u cyllidebu a'r mesurau i gyfyngu ar gostau'n annigonol er mwyn mantoli'r gyllideb yn 2015-16, ac roedd y cynllun a gyflwynwyd gan y Bwrdd lechyd i Lywodraeth Cymru'n tynnu sylw at hyn. Mae'r CTCI wedi cael ei gymeradwyo gan y Gweinidog ar y sail nad yw'r Bwrdd lechyd yn mynd y tu hwnt i'r diffyg o £19.7 miliwn a gynlluniwyd ganddo yn y flwyddyn gyfredol, ac ar yr amod bod ei ddiffyg cronuss dros dair blynedd yn gostwng.
 - Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu ystod o fesurau rheoli ychwanegol er mwyn gwella'r sefyllfa ariannol yn y tymor byr a'r tymor hir (**Atodiad 1, A1**). Mae'r rhain yn cynnwys modelu gwasanaethau drwy'r CTCI, arbedion effeithlonrwydd a sicrheir o Ofal lechyd Parhaus a Rheoli Meddyginiaethau, a thargeddu ffrydiau ariannu Buddsoddi i Arbed a Gofal Canolraddol.
- Yn briodol, mae'r sefydliad yn monitro ac yn ailasesu ei sefyllfa ariannol yn fisol ac yn adrodd mewn modd tryloyw wrth y Bwrdd ac wrth Lywodraeth Cymru:
 - Mae'r arbedion i ryddhau arian parod erbyn mis Tachwedd 2015 £0.5 miliwn yn uwch nag a gyllidebwyd, ac £13.6 miliwn, neu 5 y cant yn uwch nag a gyllidebwyd, yw cyfanswm yr arbedion ar gyfer y flwyddyn.
 - Ceir tystiolaeth o ymgysylltu yn y cynlluniau ariannol a'r CNGau gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynlluniau, ond mae'r Bwrdd yn gorfod defnyddio'i gronfa newid strategol a glustnodwyd i gefnogi cyflawniad CNGau er mwyn sefydlogi'r sefyllfa.

Risgiau a heriau

- Yn 2014-15, roedd y Bwrdd lechyd yn dibynnu ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn mantoli'r cyfrifon ac mae'n cydnabod nad yw'r dull hwn yn gynaliadwy. Bydd yr un sefyllfa'n bodoli yn 2015-16, gan awgrymu nad yw'r sefyllfa ariannol yn gyflawnadwy nac yn gynaliadwy yn y tymor canolog.
- Ym mis Tachwedd 2015, mae'r Bwrdd lechyd wedi adrodd diffyg o £15.6 miliwn, ac yn rhagweld diffyg o £22.6 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Sicrhawyd £7 miliwn o arbedion erbyn mis saith yn erbyn targed o £13 miliwn. Felly, bydd angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau lefel cymharol uwch o arbedion yn y pum mis sy'n weddill o'r flwyddyn, yn ogystal â'r £6 miliwn o fesurau i gyfyngu ar gostau fel bo modd sicrhau'r diffyg o £19.7 miliwn a gynlluniwyd. Mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd camau i adfer y sefyllfa ac fe geir tystiolaeth o ymgysylltu yn y cynlluniau ariannol a'r cynlluniau newid gwasanaeth gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynlluniau hynny.
- Er bod gan y Bwrdd lechyd hanes da o gyflawni ei gynlluniau arbed er mwyn ymdrin â phwysau ariannol cynyddol, mae lefel yr arbedion cyflawnadwy a ragwelir yn y blynyddoedd nesaf yn gostwng. Mae'r Bwrdd lechyd wedi rhagweld y bydd ei arbedion hirdymor ar gyfer 2016-17 a 2017-18 yn is, sef £9.6 miliwn a £5.6 miliwn, yn y drefn honno, gan awgrymu bod mantoli'r gyllideb yn gynyddol anodd.

Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

Mae'r Bwrdd lechyd wedi pennu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd, gyda thystiolaeth o welliannau parhaus i'w drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg a pherfformiad

16. Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- Fod cynlluniau strategol y Bwrdd lechyd yn creu sail dda i symud y sefydliad yn ei flaen, sy'n llywio gweithgarwch gwella, ond mae ei ddyfodol yn dibynnu'n drwm ar gymeradwyo'r achos busnes ar gyfer Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol.
- Bod y Bwrdd lechyd wedi elwa ar strwythur sefydlog fel sefydliad, ond mae angen iddo ystyried a yw'r strwythur presennol yn rhoi digon o gefnogaeth i foderneiddio gwasanaethau ac ar gyfer atebolrwydd gweithredol.
- Bod gan y sefydliad Fwrdd effeithiol ac mae'n dangos ei fod yn rheoli materion a risgiau presennol; fodd bynnag, bydd angen datblygu ei drefniadau i fodloni deddfwriaeth newydd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Bod y strwythur pwyllgorau'n cefnogi trefniadau llywodraethu da, ac fe geir tystiolaeth bod y trefniadau'n gwella'n barhaus.
- Bod y Bwrdd lechyd yn parhau i ddatblygu ei wybodaeth reoli'n gyson i'w helpu i sicrhau bod yr wybodaeth honno'n cael ei chyflwyno a'i defnyddio i gefnogi trefniadau effeithiol wrth graffu a gwneud penderfyniadau.
- Bod trefniadau'r Bwrdd lechyd i reoli risg yn cynorthwyo'r Bwrdd a'i bwyllgorau i reoli risgiau allweddol i'r sefydliad, a bod gwaith ar y gweill i atgyfnerthu'r trefniadau hyn eto.

-
- Bod y rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan wrth fodloni gofynion sicrwydd cyfredol, ond bod angen goruchwyliaeth gliriach ar y camau a gymerwyd yn erbyn argymhellion archwilio allanol.
 - Bod fframwaith priodol wedi'i sefydlu i gefnogi trefniadau da ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, bod trefniadau Caldicott wedi'u datblygu'n dda, a bod lle i sicrhau gwelliannau pellach.
 - Bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth briodol am ei berfformiad a gallai ei waith addawol wrth ddatblygu canlyniadau roi ffocws mwy cytbwys i'r Bwrdd Iechyd er mwyn mesur effaith ei ymdrechion, ond bod mynediad at ofal wedi'i gynllunio a heb ei drefnu o dan bwysau cynyddol.

17. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn yn yr adrannau a'r tablau canlynol.

Cynllunio strategol

Mae cynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd yn creu sail dda i symud y sefydliad yn ei flaen, sy'n llywio gweithgarwch gwella, ond mae ei ddyfodol yn dibynnu'n drwm ar gymeradwyo'r achos busnes ar gyfer Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol.

18. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 2**. Maent yn seiliedig ar ein hadolygiad o drefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd a'r graddau yr adlewyrchir Cynllun De Cymru (CDC) yn CTCl y Bwrdd Iechyd.

Tabl 2: cynllunio strategol

Cryfderau a datblygiadau

- Mae'r CTCI yn pennu amcanion strategol y Bwrdd Iechyd, ac mae'r amcanion hynny wedi derbyn ystyriaeth a her dda gan y Bwrdd. Cafodd y CTCI ei gymeradwyo gan y Gweinidog ym mis Mehefin 2015 - sefyllfa well na'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.
- Mae'r CTCI yn gynhwysfawr ac yn cynnwys darlun mwy eglur o'r targedau a'r newidiadau a'r lefel gwasanaethau, a'r amserlen ar gyfer cyflawni, nag a oedd ar gael y llynedd. Craidd y Cynllun yw'r strategaeth Dyfodol Clinigol sydd wedi cael ei sefydlu ers tro. Mae'r strategaeth hon yn pennu gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau clinigol sy'n gymesur â'r galw a'r gofal sy'n cael ei ddarparu yn y lleoliad mwyaf priodol.
- Mae'r CTCI yn cynnwys ymdriniaeth ddigonol â Rhaglen De Cymru a'i goblygiadau tebygol. Mae'n gyson â chynlluniau rhanbarthol ac yn pennu'r bwriadau ar gyfer gwasanaethau, sef meddygaeth bediatrig, newyddenedigol, obstetrig a brys yn bennaf. Mae'r CTCI yn integreiddio gweithrediad Rhaglen De Cymru â'r Strategaeth Dyfodol Clinigol sy'n bodoli eisoes.
- Mae CTCI 2015-18 yn cyflwyno 10 o Gynlluniau Newid Gwasanaeth (CNG) sydd yn darparu nodau gwella cymharol glir yn nhrefn blaenoriaeth, ac sy'n trafod ystod eang o feysydd gwasanaeth clinigol y Bwrdd Iechyd. Mae lefel manylder pob Cynllun Newid Gwasanaeth yn amrywio yn y CTCI, ond mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn dechrau datblygu'r rhain yn gynlluniau cyflawni. Dyma'r CNGau:
 - lleihau anghydraddoldeb iechyd;
 - gofal iechyd parhaus;
 - ataliaeth a gwella iechyd y boblogaeth
 - cynaliadwyedd gwasanaethau;
 - gwasanaethau darparwyr a gofal sylfaenol;
 - iechyd meddwl ac anabledd dysgu;
 - integreiddio - dod â gofal yn nes at adref;
 - gofal brys ac argyfwng;
 - rheoli cyflyrau cronig; a
 - gofal wedi'i gynllunio.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno'r achos busnes llawn ar gyfer y Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol, ynghyd ag achos busnes cyffredinol y Rhaglen Dyfodol Clinigol, i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith paratoi yn mynd rhagddo ar safle Ysbyty Grange Llanfrechfa, lleoliad y Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol.

Cryfderau a datblygiadau (parhad)

- Gwneir defnydd sylweddol o adnoddau cynllunio ar gyfer rhai prosiectau penodol, fel cynllunio ar gyfer y Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol. Fodd bynnag, mae'r capasiti cynllunio wedi cynyddu, drwy drefniant dros dro i ddechrau ond bellach mae'r swyddi wedi'u llenwi'n barhaol.
Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno capasiti newydd i gefnogi gwaith cynllunio ar lefel adrannau drwy ddyrannu staff cynllunio canolog i adrannau drwy drefniant partneriaid busnes. Y nod yw creu cysondeb a gwella ansawdd ar draws yr holl adrannau.

Risgiau a heriau

- Erys risgiau i gynaliadwyedd gwasanaethau, ac mae oedi parhaus wrth sicrhau cyllid cyfalaf a gwendidau wrth gydweithio ar draws Cyngbreiriau Gofal Acíwt yn gwaethygu hyn. Mae hyn yn cynnwys pryderon ynghylch gwytnwch gwasanaethau hyd at agoriad arfaethedig y Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol yn 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar gynlluniau wrth gefn a chadw ar gyfer gwasanaethau bregus fel gwasanaethau newyddenedigol, obstetreg a phediatreg.
Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu cadw ar safle dau ysbyty cyffredinol dosbarth, ond ceir risgiau'n gysylltiedig â bodloni gofynion y Ddeoniaeth, recriwtio a phryderon ynghylch cynnal safonau clinigol.
- Un o strategaethau craidd y Bwrdd Iechyd yw cymeradwyo'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol a'r Achos Busnes Dyfodol Clinigol cyffredinol. Pe bai'r achos yn cael ei wrthod yn llwyr (yn hytrach na gohirio'r penderfyniad), ni fyddai gan y Bwrdd Iechyd unrhyw gynlluniau eraill yn ei le.

Strwythur trefniadol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi elwa ar strwythur sefydlog fel sefydliad, ond mae angen iddo ystyried a yw'r strwythur presennol yn rhoi digon o gefnogaeth i foderneiddio gwasanaethau ac ar gyfer atebolrwydd gweithredol.

19. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 3**. Rydym wedi ystyried materion sy'n gysylltiedig â strwythur yn rhan o'n gwaith maes arferol ar gyfer yr asesiad strwythuredig, ond nid ydym wedi cynnal adolygiad manwl iawn o hyn. Mae strwythur yn agwedd bwysig wrth i'r Bwrdd Iechyd symud tuag at weithredu ei strategaeth dyfodol clinigol. Yn gynyddol, byddwn felly'n ystyried cyflawni gwaith archwilio lleol manylach ar hynny yn rhan o weithgarwch archwilio'r blynyddoedd nesaf.

Tabl 3: strwythur trefniadol

Cryfderau a datblygiadau

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi elwa ar barhad ei strwythur trefniadol. Mae hyn wedi bod o gymorth i sicrhau trefniadau ffurfiol i ddirprwyo atebolrwydd gweithredol ym mhob maes busnes. Mae'r sefydlogrwydd hwn yn sicrhau y gall rheolwyr ganolbwyntio ar wella gwasanaethau heb unrhyw waith ad-drefnu cymhleth yn y cefndir.
- Mae strwythur y Weithrediaeth hefyd yn parhau i fod yn sefydlog, gyda llawer o'r swyddi dros dro bellach wedi'u llenwi'n barhaol. Mae unigolion wedi cael eu penodi i swyddi'r Cyfarwyddwr Perfformiad a Chynllunio a Chyfarwyddwr y Gweithlu, ac i swyddi Datblygu Trefniadol. Bydd y trosglwyddiad yn bwysig er mwyn sicrhau bod gwaith i wella a thrawsnewid gwasanaethau'n parhau, gan gynnwys dylunio'r gweithlu.
- Deallwn fod cefnogaeth i adrannau drwy arbenigedd partner busnes canolog wedi gwella. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gan bartneriaid busnes cyllid, perfformiad a chynllunio busnes.
- Ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer iechyd a diogelwch, cwynion, digwyddiadau a phryderon a phrofiadau cleifion. Ymddengys fod y rhain i'w cael ym mhortffolios y cyfarwyddwr perthnasol. Er enghraifft, mae cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Nyrsio yn cynnwys rheoli haint, profiad y claf, hyfywedd meinweoedd, amddiffyn oedolion agored i niwed ac amddiffyn plant. Mae cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Meddygol yn cynnwys unioni sefyllfaoedd a dysgu yn sgil cwynion ac achosion ymglyfreitha. Mae'r Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd yn cynnwys Iechyd a Diogelwch. Bydd cyfarwyddiaethau'n cydgyssylltu eu gwaith mewn modd integredig er mwyn ymdrin â materion ansawdd. Mae gan y tri Chyfarwyddwr Clinigol gyfrifoldeb unigol ac ar y cyd dros Ansawdd a Diogelwch Cleifion ar draws y sefydliad.

Risgiau a heriau

- Mae gan bob adran ei threfniadau ei hun i sicrhau ansawdd, er bod rhai'n ymddangos fel pe baent yn gweithredu'n fwy effeithiol a chanddynt brosesau mwy eglur nag eraill. Er bod angen i rai adrannau gynllunio'u trefniadau'n ofalus i gyd-fynd â'u maes gweithredu, byddai'r Bwrdd Iechyd yn elwa ar well cysondeb ac ar brosesau adrannol safonol i sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau na cheir unrhyw fylchau o ran sicrwydd. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion eisoes wedi gofyn i'r Grŵp Gweithredu Ansawdd a Diogelwch Cleifion arwain y gwelliannau hyn.
- Er mwyn gwireddu uchelgais y Bwrdd Iechyd i ddarparu'r gofal cywir yn y lleoliad cywir ac yn nes at adref, efallai y bydd angen newid dyraniad adnoddau a newid rhywfaint ar y defnydd o'r gweithlu. Fodd bynnag, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i adolygu ei strwythur trefniadol er mwyn sicrhau ei fod yn llwyr alluogi'r math o newid llwybr trawsadrannol sy'n rhan o weledigaeth y Bwrdd Iechyd.
- Yn ôl sawl adroddiad ffurfiol ac anffurfiol mewn ystod o bwyllgorau, mae heriau o flaen y Bwrdd Iechyd wrth sicrhau ei fod yn bodloni safonau'n gyson. Yn aml, cyflwynir problemau cydymffurfio sy'n bodoli ers tro gerbron pwyllgorau, fel diffyg cydymffurfio â gofynion cadw cofnodion, cymhwyso gwersi a ddysgwyd neu sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y safon gofal y mae'n anelu ati'n gyson. Nid yw'n glir a yw'r problemau cydymffurfio hyn yn tarddu o'r llinellau atebolrwydd oddi mewn i strwythur y sefydliad, neu a ydynt yn syml yn adlewyrchu gwendidau yn atebolrwydd rheolwyr a fyddai wedi bodoli waeth beth fyddai natur y strwythur hwnnw.

Effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae gan y sefydliad Fwrdd effeithiol ac mae'n dangos ei fod yn rheoli materion a risgiau presennol; fodd bynnag, bydd angen datblygu ei drefniadau i fodloni deddfwriaeth newydd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

20. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn [Nhabl 4](#).

Tabl 4: Effeithiolrwydd y Bwrdd

Cryfderau a datblygiadau

- Mae'r Bwrdd lechyd wedi cadw'r trefniadau 'arferol' o ran proses Llywodraeth Cymru ar gyfer Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar y Cyd.
- Mae'n glir bod y Bwrdd yn gofyn am safonau uchel ac yn disgwyl i'w arweinyddiaeth arddangos y safonau hyn drwy osod esiampl wrth weithredu a phenderfynu, a thrwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o ddatblygiadau ar raddfa Cymru gyfan. Mae'r rôl lysgenhadol hon yn helpu i godi proffil y Bwrdd lechyd ac yn golygu bod modd casglu enghreifftiau o arloesi a'u dychwelyd i'r sefydliad. Yn ogystal â hyn, mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio mabwysiadu arferion da oddi wrth Loegr a thu hwnt.
- Ar y cyfan, mae gan Gyngor lechyd Cymunedol Aneurin Bevan berthynas dda a phriodol â'r Bwrdd lechyd, ac y mae o'r farn fod y Weithrediaeth yn ymgysylltu ac yn ymateb mewn modd effeithiol i'r Cyngor lechyd Cymunedol ac i unrhyw faterion sy'n codi.
- Mae agenda'r Bwrdd wedi'i halinio'n glir â meysydd risg, cyfle a gwella ar raddfa leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Ceir neges glir o frig y sefydliad i ganolbwyntio ar ansawdd. Mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio rhoi'r prif sylw i brofiad y claf. Mae defnyddio stori'r claf cyn ei gyfarfod yn fodd i sefydlu nawws gweddill y cyfarfod. Mae'r Bwrdd yn cynnal trafodaethau agored. Mae'r Cadeirydd yn rhoi rhwydd hynt i aelodau annibynnol a'r Weithrediaeth ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau, ond mae'n ailgyfeirio'r trafodaethau, os ydynt yn crwydro oddi ar y pwnc i raddau sylweddol. Gweinyddir y Bwrdd yn dda, a bodlonir yr holl ofynion gweithdrefnol.
- Mae'r Bwrdd lechyd wedi adolygu aelodau ei Fwrdd a rolau arweiniol ei aelodau annibynnol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni angen lleol a gofynion cenedlaethol. Daeth y rhain i rym o fis Gorffennaf 2015.
- Mae ansawdd y cwestiynau a ofynnir wedi gwella ers y llynedd. Mae aelodau'r Bwrdd yn gweithredu fel Bwrdd unigol, ac mae hynny'n galluogi aelodau annibynnol a swyddogion gweithredol i herio a chynnig sylwadau'n weithredol ar draws meysydd gwahanol.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn awyddus i wobrwyo staff am eu hymrwymiad a'u gallu i arloesi. Y mae'n aml yn cynnig cynrychiolwyr i ennill gwobrau allanol, ac y mae wedi hen sefydlu ei raglen ei hun ar gyfer gwobrwyo a chydnabod y staff.

Risgiau a heriau

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn weithredol yn y Rhaglen Beilot ar gyfer Aelodau Bwrdd o rannau o gymdeithas sydd wedi'u tangynrychioli. Yn 2017-18, disgwylir y bydd llawer o Aelodau Annibynnol newydd ar y Bwrdd Iechyd, gan y bydd apwyntiadau llawer o'r Aelodau presennol yn dod i ben. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfle i ddechrau cynllunio olyniaeth ac i wneud trefniadau i leihau cymhlethdodau a allai godi hyd yr eithaf. Mae'n bwysig peidio tarfu ar effeithiolrwydd y Bwrdd ac ansawdd y gwaith craffu yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn yn hanes y Bwrdd Iechyd.
- O Ebrill 2016, mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd lles ar y Bwrdd Iechyd, fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo ddatblygu mewn modd cynaliadwy. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ddangos ei fod, drwy ei drefniadau llywodraethu, yn gweithredu'r egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau.
- Mae'r Bwrdd yn ei chael hi'n fwyfwy anodd rheoli oddi mewn i'r ddyraniad refeniw gan barhau i gynnig mynediad at ystod o wasanaethau, a sicrhau ansawdd y gwasanaethau hynny. Dengys trafodaethau yng nghyfarfodydd y Bwrdd rwystredigaeth gynyddol â'r sefyllfa ariannol, ac mae'r Bwrdd yn dangos nad yw'n barod i gyfaddawdu ar ansawdd na mynediad at ofal er mwyn gwella ei sefyllfa ariannol.
- Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau iechyd ar gyfer poblogaeth Gwent yn ogystal â darparu ei wasanaethau ei hun i fodloni'r angen hwnnw. Gall agendâu'r Bwrdd ganolbwyntio'n ormodol ar wasanaethau'r Bwrdd ei hun, a ddarperir ganddo'n lleol, heb roi'r un sylw i ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau a ddarperir gan eraill.
- Nid yw gwaith craffu aelodau annibynnol ar ddatblygiadau fel Rhaglen De Cymru, Cynghreiriau Gofal Acíwt na phartneriaethau mor gryf â'r gwaith craffu ar newidiadau arfaethedig i wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol.
- Er mwyn i'r Bwrdd arddangos effeithiolrwydd wrth fynd rhagddo, bydd angen iddo ddangos ei fod yn parhau i reoli ystod o risgiau gweithredol gan arwain hefyd ei raglen drawsnewid hirdymor gymhleth yn ystod cyfnod o lymder parhaus.

Strwythurau llywodraethu

Mae'r strwythur pwyllgorau'n cefnogi trefniadau llywodraethu da, ac fe geir tystiolaeth bod y trefniadau'n gwella'n barhaus

21. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn [Nhabl 5](#).

Tabl 5: strwythurau llywodraethu

Cryfderau a datblygiadau

- Mae'r Pwyllgorau wedi'u sefydlu'n dda. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl clir, sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn. Mae'r strwythur pwyllgorau yn caniatáu i bwyllgorau dreulio digon o amser yn canolbwyntio ar feysydd busnes a risgiau sefydliadol unigol. Ceir hefyd lefel resymol o ryngweithredu rhwng y pwyllgorau amrywiol, sy'n cefnogi trefniadau i drawsgyfeirio pryderon.
- O ran y pwyllgorau y buom yn eu harsyllu yn rhan o waith eleni², roedd cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda ar y cyfan, gyda threfniadau gweinyddol da ac agendâu clir a ganolbwyntiai ar gylch gorchwyl y pwyllgor.
- Mae'r Pwyllgor Cynllunio a Newid Strategol bellach wedi bod ar waith ers dros flwyddyn ac yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu rhaglen waith sy'n trafod ac yn dylanwadu ar gyfeiriad a chyflymder newid strategol.
- Ceir tystiolaeth glir yng nghyfarfod y Bwrdd fod materion a drafodir sy'n gysylltiedig ag ansawdd a diogelwch wedyn yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion. Dengys hyn ddull cadarnhaol o ryngwynebu rhwng y Bwrdd a'r pwyllgor hwn.
- Wrth ymdrin â materion ac agweddau problemus, mae gan bwyllgorau'r grym i'w huwchgyfeirio i sylw'r Bwrdd neu ofyn am gael eu 'galw yn ôl' (hy, gofyn i reolwyr ymdrin â phroblem a dychwelyd i un o gyfarfodydd nesaf y pwyllgor i roi sicrwydd bod cynnydd wedi digwydd, neu fod y broblem wedi'i lliniaru). Rydym wedi gweld y broses o uwchgyfeirio a galw yn ôl yn cael ei defnyddio mewn sawl pwyllgor, ond gallai cyfarwyddyd clir fod o gymorth i gadeiryddion wrth benderfynu pryd i ddefnyddio'r dulliau hyn.

Risgiau a heriau

- Er bod dull da yn bodoli o hyd er mwyn rhoi sicrwydd ac uwchgyfeirio pryderon o bwyllgorau i sylw'r Bwrdd, ceir lle i atgyfnerthu'r mecanweithiau a ddefnyddir gan bwyllgorau i dderbyn sicrwydd oddi wrth is-bwyllgorau a grwpiau sy'n adrodd wrthynt hwy. Mae'r Bwrdd lechyd yn cynnal adolygiad i weld sut y gallai wella'r trefniadau hyn, yn enwedig ar gyfer y Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion.
- Yn rhai pwyllgorau, rhoddir mwy o amser i'r eitemau cyntaf ar yr agenda, ac weithiau, gellir brysio drwy'r eitemau ar ddiwedd yr agenda er mwyn adennill amser.
- Yn wahanol i rai Byrddau lechyd eraill, ni chynhelir yr un o'r pwyllgorau'n gyhoeddus, ac nid yw'r papurau ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried y sefyllfa hon a phenderfynu a ddylai newid pethau er mwyn cynyddu tryloywder.
- Gall Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ganolbwyntio gormod ar rai materion gweithredol, a hynny ar draul dyluniad strategol y gweithlu a'r sefydliad.

² Yn rhan o waith eleni, buom yn arsylwi'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar 12 Hydref, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion ar 14 Chwefror, y Pwyllgor Cynllunio a Newid Strategol ar 16 Hydref, y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ar 2 Tachwedd, Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ar 11 Tachwedd, a holl gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio. Buom hefyd yn adolygu agendâu a chofnodion cyfarfodydd.

Gwybodaeth reoli

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ei wybodaeth reoli'n gyson i'w helpu i sicrhau bod yr wybodaeth honno'n cael ei chyflwyno a'i defnyddio i gefnogi trefniadau effeithiol wrth graffu a gwneud penderfyniadau.

22. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn [Nhabl 6](#).

Tabl 6: gwybodaeth reoli

Cryfderau a datblygiadau

- Mae'r Bwrdd bellach wedi gweithredu ei system Boardbooks llawn, a'r Bwrdd oedd y cyntaf yng Nghymru i wneud hynny. Mae hyn yn symleiddio'r dull o gyflwyno a dosbarthu papurau Bwrdd a phwyllgor ac yn galluogi amrywiaeth o nodweddion gweinyddol ychwanegol.
- Bydd aelodau annibynnol yn aml yn dangos eu bod yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys eu profiad eu hunain a'r hyn a arsylwyd mewn gwasanaethau. Mae hyn yn fodd i driongli gwybodaeth, ac o gymorth i gynyddu trylwyredd y gwaith craffu a herio.
- Fel arfer, bydd adroddiadau i fyrddau a phwyllgorau wedi'u hysgrifennu a'u cyflwyno'n dda. Nodir cryfderau a gwendidau'n rheolaidd mewn adroddiadau, a hynny mewn modd teg. Os oes angen, bydd aelodau annibynnol yn herio ansawdd adroddiadau rheoli, i gefnogi gwelliant pellach i ansawdd adroddiadau.
- Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n derbyn gwybodaeth glir am y canlynol:
 - Ansawdd a diogelwch gwasanaethau a pherfformiad gweithredol (er bod hyn yn canolbwyntio mwy ar allbwn, proses a risg/digwyddiadau yn hytrach na chanlyniadau).
 - Cyflwyno newid a rhaglenni moderneiddio, sy'n dechrau cael mwy o sylw mewn adroddiadau ar berfformiad.
 - Mae effaith canlyniadau ariannol cynlluniau newydd yn dechrau dod yn fwy eglur. Ceir mwy o enghreifftiau o gynlluniau a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd sy'n amlygu'r goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig a newid arfaethedig. Ar adegau, bydd papurau hefyd yn cynnwys amrywiaeth o opsiynau gyda chostau i gefnogi proses benderfynu'r Bwrdd. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r blynyddoedd cynt.
 - Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn goruchwylio mwy ar ansawdd data a'r rheolaeth ar wybodaeth, ac mae'r Bwrdd yn derbyn sicrwydd ynghylch perfformiad codio ac ansawdd y data a'r wybodaeth a ddefnyddir er mwyn gwneud penderfyniadau.
- Fel mater o drefn, bydd pwyllgorau'n defnyddio crynodebau sicrwydd i adrodd wrth y Bwrdd ynghylch sicrwydd a risgiau.

Risgiau a heriau

- Fodd bynnag, mae tuedd i wybodaeth y Bwrdd ganolbwyntio mwy ar ddarpariaeth gwasanaeth ysbytai, gan gynnig llai o sicrwydd ynghylch gwasanaethau a gomisiynir gan ddarparwyr gwasanaeth eraill.
- Gall hyd papurau fod yn her, yn ogystal â nifer yr eitemau ar agendâu'r Bwrdd a'r pwyllgorau.

Rheoli risg

Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli risg yn cynorthwyo'r Bwrdd a'i bwyllgorau i reoli risgiau allweddol i'r sefydliad, ac mae gwaith ar y gweill i atgyfnerthu'r trefniadau hyn eto

23. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 7**.

Tabl 7: rheoli risg

Cryfderau a datblygiadau
<ul style="list-style-type: none">• Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei strategaeth rheoli risg yn 2015. Mae'r strategaeth yn nodi'r model ar gyfer asesu risg a rolau a chyfrifoldebau penodol.• Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ac yn mireinio ei ddull o reoli risg er mwyn rhoi mwy o sylw i'r claf a datblygu dealltwriaeth gliriach ynghylch yr awydd am risg. Bydd y rheolwyr yn cyflwyno strategaeth rheoli risg ddiwygiedig i'r Pwyllgor Archwilio yn y Flwyddyn Newydd yn dilyn gwaith datblygu pellach.• Bydd y Bwrdd yn adolygu'r gofrestr risgiau corfforaethol ym mhob cyfarfod ac yn trafod eitemau allweddol, onid ydynt eisoes wedi cael eu trafod yn rhan o eitem arall ar yr agenda.• Mae gan bob pwyllgor gofrestr risg benodol ar gyfer ei gylch gorchwyl. Gall y Bwrdd a'r pwyllgorau ryngweithredu â'i gilydd i raddau rhesymol. Mae hyn yn golygu y gellir trosglwyddo'r oruchwyliaeth dros risgiau (uwchgyfeirio) o'r pwyllgor i'r Bwrdd, (dirprwyo) o'r Bwrdd i'r pwyllgor, a (throsglwyddo) rhwng pwyllgorau fel bo'r angen.• Mae'r Bwrdd Iechyd yn olrhain camau a gymerir i ymdrin â risgiau a hefyd yn olrhain tueddiadau mewn sgoriau risg dros amser.• Ceir perchnogion risg clir ar lefel weithredol, sy'n gyson â'r cynlluniau dirprwyo a nodir ar y gofrestr risgiau.• Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd wedi llunio cofrestr risg sydd wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer iechyd cyhoeddus a phartneriaethau, ac sy'n adlewyrchu natur tymor canolig a thymor hwy y risgiau hyn.
Risgiau a heriau
<ul style="list-style-type: none">• Mae rhai o'r cofrestrau risg yn cynnwys risgiau sydd wedi bodoli ers tro. Er nad oes modd rheoli risg bob tro, ceir sawl risg lle na arweiniodd y camau a gynigiwyd i liniaru'r risg at ostwng y risg yn raddol.

Rheolaethau mewnol

Mae'r rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan, o ran bodloni gofynion sicrwydd cyfredol, ond mae angen goruchwyliaeth gliriach dros y camau a wnaed yn erbyn argymhellion archwilio allanol.

24. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 8**.

Tabl 8: rheolaethau mewnol

Cryfderau a datblygiadau

- Mae'r Bwrdd lechyd yn defnyddio'r fframwaith rheoli risg fel mecanwaith i oleuo a phennu'r gofynion o ran sicrwydd. Mae hyn o gymorth i sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn ceisio sicrwydd priodol drwy ei fframwaith ar gyfer rheolaeth fewnol.
- Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynllunio ac yn cyflawni rhaglen waith gadarn sy'n seiliedig ar gynlluniau priodol sy'n seiliedig ar risg. Mae'r staff yn ddigon medrus i ddarparu'r gwasanaeth.
- Mae'r Gwasanaeth Atal Twyll yn parhau i ddarparu gwasanaeth rhagweithiol a darbodus sy'n canolbwyntio ar atal, canfod ac ymateb i dwyll a chamymddygiad cysylltiedig.
- Llwyddodd y Bwrdd lechyd i fodloni'r gofyniad i lunio ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol (DAB).
 - Mae'n rhoi disgrifiad cadarn o'r rheolaethau ansawdd, ansawdd gwasanaethau, ac mewn rhai meysydd, y risgiau i wasanaethau diogel ac effeithiol;
 - Mae'n arddangos didwylledd yn y datganiad ansawdd pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le;
 - Gallai ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau a phrofiadau gwirioneddol, yn enwedig ei waith cyffrous i ddatblygu fframwaith canlyniadau. a
 - Gallai roi disgrifiad mwy eglur o ymrwymiad ar lefel y Bwrdd at amcanion ansawdd cynhwysfawr i'r sefydliad.
- Ymddengys fod y trefniadau i sicrhau uniondeb a phriodoldeb yn ddigonol, a'u bod agweddau fu'n destun pryder wedi gwella. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd lechyd wedi adolygu a newid ei ofynion ar gyfer datgan buddiant, cofrestru buddiannau a datgan rhoddion a lletygarwch, wedi i nifer o staff meddygol o fewn y Bwrdd lechyd brynu Ysbyty Sant Joseff.

Risgiau a heriau

- Ceir cyfle i atgyfnerthu prosesau datgan ymhellach drwy ddiweddarau'r gofynion i sicrhau bod staff y Bwrdd lechyd, yn enwedig nyrsys, sy'n gweithio i asiantaethau cyflogi allanol, yn datgan hynny. Byddai hyn o gymorth i leihau hyd yr eithaf unrhyw achosion posibl o fynd yn groes i'r gyfarwydddeb oriau gwaith ac yn cefnogi cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Gallai hefyd leihau'r risgiau ansawdd yn gysylltiedig staff clinigol sy'n gweithio oriau maith. Gallai hefyd greu mecanwaith er mwyn helpu i ganfod achosion posibl o dwyll, fel aelodau o staff sy'n hawlio tâl absenoldeb salwch tra bônt yn gweithio mewn Bwrdd lechyd arall drwy asiantaeth.
- Er bod gan y sefydliad ddull o olrhain argymhellion archwilio mewnol, nid oes trefniadau digonol wedi'u sefydlu i olrhain a monitro effeithiolrwydd yr ymateb i argymhellion archwilio allanol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r Pwyllgor Archwilio asesu a chraffu ar gynnydd. Dylai'r Bwrdd lechyd roi trefniadau monitro ar waith.
- Gan nad oes trefniadau contractio ffurfiol ar gyfer nyrsys a ddarperir gan gyflenwyr o'r tu allan i'r fframwaith, ceir risg o ddiffyg cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a risgiau hefyd o ran economi ac ansawdd.

Llywodraethu Gwybodaeth

Mae fframwaith priodol wedi'i sefydlu i gefnogi trefniadau da ar gyfer llywodraethu gwybodaeth. Mae trefniadau Caldicott wedi'u datblygu'n dda, ac mae lle i sicrhau gwelliannau pellach

25. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn [Nhabl 9](#).

Tabl 9: llywodraethu gwybodaeth

Cryfderau a datblygiadau

- Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth llywodraethu gwybodaeth ar waith sy'n trafod materion llywodraethu gwybodaeth, gan gynnwys diogelu data, Caldicott a chytundeb rhannu gwybodaeth bersonol Cymru. Mae'r strategaeth hon wedi dod i ben, ond mae'r Bwrdd Iechyd ar ganol ei diweddaru'n unol â strategaeth TG y GIG.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llunio adroddiad gwybodeg blynyddol wedi'i gytuno'n ffurfiol a gyflwynwyd er sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Ebrill 2015. Yn yr adroddiad hwn, mae'r Bwrdd Iechyd y dangos ei fod yn cydnabod ei ddibyniaeth ar wybodaeth amserol a chywir, ac ar ddefnydd priodol o'r wybodaeth honno i gefnogi'r agenda monitro, perfformiad, cynllunio a llywodraethu.
- Ceir fframwaith blynyddol o adolygiadau mewnol er mwyn helpu i sicrhau y cydymffurfir â safonau gwybodaeth. Mae'r fframwaith hwn wedi dangos gwelliant o ran cydymffurfio sy'n gysylltiedig ag ystod o weithgarwch datblygu, fel ehangu rhaglen stiwardiaid gwybodaeth y Bwrdd, a'i drefniadau ar gyfer addysgu staff a chleifion.
- Mae agenda'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn rhoi sylw da i sicrwydd ynghylch materion llywodraethu gwybodaeth, sydd wedi'u cynnwys ar ffurf crynodeb mewn adroddiadau a gyflwynir ganddo i'r Bwrdd.

Risgiau a heriau

- Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm Llywodraethu Gwybodaeth profiadol a chymwys i ymdrin â materion llywodraethu gwybodaeth mewn modd priodol. Fodd bynnag, deallir bod risg na ddarperir digon o adnoddau a chyllid ar gyfer gweithgarwch addysg y staff a chleifion, a allai fod yn rhwystr i lwyddiant y tîm yn y dyfodol.

Rheoli perfformiad

Mae'r Bwrdd yn derbyn gwybodaeth briodol am ei berfformiad a gallai ei waith addawol wrth ddatblygu canlyniadau roi ffocws mwy cytbwys i'r Bwrdd lechyd er mwyn mesur effaith ei ymdrechion, ond mae mynediad at ofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu o dan bwysau cynyddol

26. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn [Nhabl 10](#).

Tabl 10: rheoli perfformiad

Cryfderau a datblygiadau

- Mae'r Bwrdd yn craffu ar berfformiad y sefydliad mewn modd effeithiol. Mae'r gwaith craffu hwn yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar ofal aciwt a phrosesau. Mae'r Bwrdd lechyd yn dechrau alinio'r CTCI â'i ddulliau o adrodd ar berfformiad.
- Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn dechrau datblygu ei ddull o gofnodi ac adrodd mesurau canlyniad. Y mae'n ymgysylltu â'r Consortiwm Rhyngwladol ar gyfer Mesur Canlyniadau lechyd ac yn chwilio am arfer da mewn sefydliadau gofal iechyd eraill.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio i wella lefel yr wybodaeth amser real am berfformiad, fel bo modd i reolwyr wneud penderfyniadau deallus.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu dull olrhain cynllunio integredig, a ddylai fod o gymorth iddo ganfod risgiau'n gysylltiedig â 'newid', datrys sut y reoli'r risgiau hynny a helpu'r Bwrdd i farnu pa gynlluniau sydd ar y blaen, a pha gynlluniau sydd ar ei hôl hi.
- Pwyntiau penodol ar ein hadolygiad gwrthrychol o adroddiadau perfformiad y Bwrdd ym mis Hydref 2015 ar gyfer y Bwrdd lechyd:
 - Yn briodol, mae'r adroddiadau ar berfformiad yn defnyddio sgoriau Coch Ambr Gwyrdd, siartiau a rhagolygon ar gyfer sefyllfa diwedd y flwyddyn, a hefyd yn cynnwys cipolwg o'r ysgogiadau perfformiad sy'n effeithio ar ei sefyllfa ariannol.
 - Mae'r naratif yn yr adroddiadau perfformiad integredig yn seiliedig ar gyfran helaeth o adroddiadau eithrio, ac yn cynnwys camau unioni. Fodd bynnag, yn aml ni chaiff y cyfrifoldeb am gymryd y camau unioni ei ddyrannu.
 - Ymddengys mai disgwyliad oes yw'r unig fesuriad canlyniad a adroddir sy'n seiliedig ar y boblogaeth, tra bo'r rhan fwyaf o'r mesuriadau eraill yn gysylltiedig â gweithgarwch.
 - Mae'r defnydd o gardiau sgorio yn gwella.
 - Mae'r dulliau o gyfathrebu ynghylch cynnydd yn erbyn CNGau y CTCI yn gwella.
- Hefyd, gweler y cynnydd yn erbyn argymhelliad 6 o Asesiad Strwythuredig 2014, y ceir hyd iddo yn [Atodiad 1](#) yr adroddiad hwn.

Risgiau a heriau

- O ystyried y pwysau ar wasanaethau a'r cefndir o lymder, mae'r Bwrdd lechyd yn cyrraedd lefel resymol o berfformiad mewn sawl maes. Fodd bynnag, ceir pwysau cynyddol ar wasanaethau gofal wedi'i drefnu a heb ei drefnu, a gallai'r pwysau hwn gynyddu dros y gaeaf. Os trosglwyddir adnoddau a chapasiti o ofal wedi'i drefnu i ofal heb ei drefnu dros gyfnod y gaeaf, dylid rhoi cynlluniau ar waith hefyd i adfer sefyllfa'r gofal sydd wedi'i drefnu yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Ffactorau sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod agenda uchelgeisiol ar gyfer newid, ac yn gynyddol yn targedu'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau i'w helpu i gyflawni yn erbyn ei amcanion newid a'i nodau corfforaethol.

27. Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- Fod rhaglenni newid strategol yn dechrau tanategu'r CTCl, a bod arweinwyr mentrau newid cymhleth yn derbyn cefnogaeth gynyddol yn sgil gwella'r capasiti i reoli newid.
- Bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau perthnasol i ymdrin â risgiau gweithredol i'r gweithlu, ond gallai gyfleu'r gwaith o drawsnewid y gweithlu yn well fel rhan integredig o'r CTCl ac o'r strategaeth Dyfodol Clinigol.
- Bod y Bwrdd Iechyd yn arddangos ymrwymiad i ymgysylltu mewn modd rhagweithiol â'r cyhoedd, cleifion, staff a rhanddeiliaid ac yn parhau i adeiladu ar waith partneriaeth, ac i ymrwymo i hynny.
- Bod y Bwrdd Iechyd yn wynebu sawl her o ran ei ddefnydd o TG a systemau i gefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol a moderneiddio gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys cytuno ar strategaeth TG ar gyfer y tymor hwy ac ymdrin â risgiau'n gysylltiedig â'r seilwaith TG a gwytnwch gwasanaethau.

28. Nid ydym wedi adolygu defnydd y Bwrdd Iechyd o asedau ac ystadau yn ystod y 12 mis diwethaf, ond byddwn yn ystyried hyn y flwyddyn nesaf yng ngoleuni unrhyw benderfyniadau ynghylch yr achos busnes ar gyfer y Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol.

29. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau fu'n sail i'r casgliadau hyn yn yr adrannau a'r tablau canlynol.

Rheoli newid

Mae rhaglenni newid strategol yn dechrau tanategu'r CTCl, ac mae arweinwyr mentrau newid cymhleth yn derbyn cefnogaeth gynyddol yn sgil gwella'r capasiti i reoli newid

30. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'n casgliad yn **Nhabl 11**.

Tabl 11: rheoli newid

Cryfderau a datblygiadau

- Mae'r uwch reolwyr yn cydnabod y gallai'r Bwrdd lechyd wella'r capasiti i reoli prosiectau. Ceir gofynion cymhleth, graddfa fawr a rhyng-ddibynnol yn sgil cynlluniau newid gwasanaeth y CTCl, ond mae'r Bwrdd lechyd wedi wynebu heriau yn y gorffennol wrth gyflawni'r mathau hyn o newidiadau o fewn amserlen gynlluniedig. Mewn ymateb i hyn, mae'r Prif Weithredwr yn sefydlu swyddfa rhaglen er mwyn creu capasiti ychwanegol ar gyfer newid. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn bwriadu gwella ei ddull ymgysylltu clinigol yn rhan o'i raglen newid ac wrth ddylunio llwybrau cleifion.
- Mae Adroddiad Blynyddol Aneurin Bevan ar Welliant Parhaus 2014-15³ yn cynnig sawl enghraifft dda o'r modd y mae tîm y Bwrdd lechyd yn arwain ac yn cefnogi newid cynyddraddol a gwelliannau i arferion clinigol. Mae'r tîm yn chwilio am enghreifftiau o arfer da ac yn rhannu'r enghreifftiau hynny, ac yn cefnogi dysgu a datblygu.
- Ceir trefniadau clir o ran arweinyddiaeth a chyfathrebu ym mhob un o'r Cynlluniau Newid Gwasanaeth. Mae'r Bwrdd lechyd yn adolygu'r trefniadau llywodraethu gweithredol ar gyfer pob CNG er mwyn atgyfnerthu unrhyw feysydd sydd i'w gwella a sicrhau llwyfan gadarn ar gyfer y dyfodol.
- Os yw'n glir ei bod hi'n ofynnol llunio achos busnes, mae'r rhain yn dilyn y model pum achos. Mae hyn yn cefnogi proses benderfynu strwythuredig ar gyfer cymeradwyo achosion busnes, er nad yw'n glir i ba raddau y mae'r dull hwn yn bodloni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Risgiau a heriau

- Nid yw'n glir eto i ba raddau y mae atebolrwydd ariannol, dirprwyo ariannol a chyllid buddsoddi wedi'u hintegreiddio i ddulliau cyflawni'r CNG, ac yn galluogi'r dulliau hynny.
- Nid yw cerrig milltir cyflawni'r CNG wedi'u diffinio'n glir, felly mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i fonitro cyflymder y cyflawni, a'i herio wedyn.

³Uned a sefydlwyd i gynorthwyo adrannau a thimau gyda'i rhaglenni gwella ansawdd, diogelwch cleifion ac arloesi yw Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan (GPAB)

Y Gweithlu

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau perthnasol i ymdrin â risgiau gweithredol i'r gweithlu, ond gallai gyfleu'r gwaith o drawsnewid y gweithlu yn well fel rhan integredig o'r CTCI ac o'r strategaeth Dyfodol Clinigol

31. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'n casgliad yn **Nhabl 12**.

Tabl 12: y gweithlu

Cryfderau a datblygiadau

- Mae Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan yn darparu gwasanaeth da er mwyn datblygu'r gweithlu i gefnogi gwelliannau parhaus. Nid yw'r tîm yn gyfrifol am ystod lawn y gwaith i ddatblygu'r gweithlu, ond mae'n canolbwyntio ar agweddau penodol ar ddatblygu rheolaeth ac arweinyddiaeth er mwyn cefnogi gwelliannau gweithredol o fewn gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys ehangu rhaglenni datblygu Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd ar lefel Efydd, Arian ac Aur.
- Mae tîm y Gweithlu a Datblygu Trefniadol hefyd yn frwd eu cefnogaeth dros ddysgu a datblygiad y sefydliad ac unigolion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ac yn addasu ei ddulliau hyfforddi er mwyn cydnabod arddulliau ac anghenion dysgu gwahanol unigolion, gan gynnwys e-ddysgu (er hyblygrwydd a gwerth am arian) a dysgu mewn grŵp
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da gydag arfarniadau perfformiad a phrosesau adolygu. O hyn allan, mae angen iddo sicrhau ei fod yn cynnal y momentwm ac yn ymwreiddio arfer da.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn ysgogi diwylliant o berfformiad cryf. Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes da o sicrhau gwelliant parhaus i'r modd y mae'n dathlu llwyddiant ei weithlu. Er enghraifft, dengys adroddiad blynyddol 2014-15 fod ei staff wedi ennill sawl gwobr ac anrhydedd yn ystod y flwyddyn.

Risgiau a heriau

- Mae prinder nyrsys yn parhau i achosi risgiau ariannol i'r Bwrdd Iechyd, a gallai achosi risgiau ansawdd hefyd. Mae hynny oherwydd y ddibyniaeth ar staff asiantaeth, er bod mesurau gwella'n dechrau gadael eu hôl.
- Mae staffio a hyfforddiant meddygol yn parhau i roi straen ar gynaliadwyedd gwasanaethau mewn rhai meysydd arbenigol a safleoedd.
- Mae angen cyfyngu ar gyfraddau absenoldeb salwch. Ystyried arfer da o Loegr, fel Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolfan Walton.
- Cymeradwyodd y Bwrdd ei strategaeth ar gyfer Y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Medi. Dyma greu sylfaen dda ar gyfer gwella'r gweithlu'n gyffredinol. Fodd bynnag, wrth ganolbwyntio ar ddatblygu'r gweithlu (sicrhau bod y gweithlu cywir yn gweithio yn y dull cywir), nid yw'n dangos mewn modd effeithiol sut y caiff gwaith i ailddylunio gwasanaethau ei gynllunio (newid y defnydd o'r gweithlu a'r modd y bydd modelau gofal newydd yn newid eu dull o weithio).

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd yn arddangos ymrwymiad i ymgysylltu mewn modd rhagweithiol â'r cyhoedd, cleifion, staff a rhanddeiliaid ac yn parhau i adeiladu ar waith partneriaeth, ac i ymrwymo i'r gwaith hwnnw.

32. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'n casgliad yn **Nhabl 14**.

Tabl 14: ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth

Cryfderau a datblygiadau

- Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei strategaeth ymgysylltu ym mis Ionawr 2015. Gosodai'r strategaeth yr egwyddorion a'r gofynion craidd ar gyfer ei ddull o ymgysylltu. Ers mis Awst, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu'r adnoddau staff a chreu capasiti rhithiol i gefnogi datblygiad cynllun ymgysylltu.
- Gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd i gasglu eu safbwyntiau er mwyn cael gwybodaeth am ansawdd cyffredinol gwasanaethau, a hefyd i nodi materion penodol y mae angen ymdrin â hwy yn rhan o'r dull 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith partneriaeth da yn y gorffennol, gan weithio ar lefel sefydliad, a hefyd ar lefel rhwydwaith gofal sirol a chymdogaethol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i'w gyfranogiad yn rhaglen eiddilwch Gwent. Drwy'r rhaglen gwelwyd enghreifftiau cadarnhaol o waith partneriaeth traws-sector rhanbarthol er mwyn ymdrin â'r angen cynyddol am wasanaethau yn y gymuned, ond mae angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu'r ddealltwriaeth ynghylch canlyniadau a meini prawf llwyddo.

Risgiau a heriau

- Cydnabyddir bod angen ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid ynghylch gweithredu'r rhaglen dyfodol clinigol, er bod cynnydd i'w weld eisoes mewn gwaith ymgysylltu ym maes gwasanaethau strôc, iechyd meddwl ac anabledau dysgu. Drwy hyn, dylid anelu nid yn unig i leihau ffactorau sy'n atal newid a chael adborth, ond hefyd ceisio cyfethol y rhanddeiliaid hyn er mwyn helpu i hyrwyddo, arwain a chyfranogi i gynyddu'r gallu i newid fel sefydliad.
- Ceir risg gyffredinol y gallai llymder a phwysau ariannol ar bartneriaid unigol amharu ar lefel yr ymrwymiad ariannol i bartneriaeth, a allai amharu ar hyfywedd partneriaethau.

TGCh a'r defnydd o dechnoleg

Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu sawl her o ran ei ddefnydd o TG a systemau i gefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol a moderneiddio gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cytuno ar strategaeth TG ar gyfer y tymor hwy, ac ymdrin â risgiau'n gysylltiedig â'r seilwaith TG a gwytnwch gwasanaethau.

33. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'n casgliad yn **Nhabl 15**.

Tabl 15: TGCh a'r defnydd o dechnoleg

Cryfderau a datblygiadau

- Mae'r Bwrdd Iechyd ar ganol datblygu strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg. Dyma gyfle i ddatblygu technoleg sy'n galluogi gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar y gymuned a'r strategaeth dyfodol clinigol. Dylid buddsoddi mewn meysydd lle bydd hynny'n sicrhau effeithlonrwydd a darbodusrwydd y gwasanaeth ac yn gwella ei ansawdd.
- Mae'r adran Wybodeg wedi creu cynllun buddsoddi cyfalaf pum mlynedd, sy'n cynnwys CTCI tair blynedd treigl.
- Mae'r broses ar gyfer cytuno ar gynigion moderneiddio TG a'u cymeradwyo yn cynnwys asesu yn erbyn cyllidebau adnoddau cyfalaf sydd ar gael. er y gallai'r Bwrdd Iechyd ystyried cynyddu'r buddsoddiad, os bydd hynny'n arwain at fwy o arbedion effeithlonni a ddychwelir fel arian parod. Ar gyfer y dull hwn, mae cynnal ymarfer trwyadl i wireddu buddiannau.
- Mae gan arweinyddiaeth y Weithrediaeth ac Aelodau Annibynnol gyfrifoldebau clir am Wybodeg.

Risgiau a heriau

- Mae cyflymder gweithrediad systemau'n parhau i fod yn her, yn enwedig pan fo cynnydd yn gysylltiedig â chynllun caffael technoleg Cymru gyfan. Un enghraifft o hyn yw'r system wybodaeth genedlaethol newydd ar gyfer gofal yn y gymuned, sydd eisoes wedi wynebu oedi ar draws Cymru.
- Gallai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o waith gwireddu buddiannau er mwyn canfod a gyrhaeddwyd y nod yn sgil ei fuddsoddiad a'i ymdrech mewn mentrau TG allweddol, ac os na chyrrhaeddwyd y nod, hwyluso camau gwella i unioni hynny.
- Mae'r lefel gyfredol o fuddsoddiad mewn TGCh yn achosi risg i'r Bwrdd Iechyd ac yn is na chyfartaledd Cymru fel cyfran o gyfanswm y referniw.
- Cafwyd problem gyda'r rhwydwaith o fewn y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn a amharodd ar ddarpariaeth gwasanaeth yn adran achosion brys Ysbyty Brenhinol Gwent. Roedd hyn yn gysylltiedig ag achos lle na chwadwodd is-contractwr at y protocol uwchraddio meddalwedd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal ymchwiliad ar ôl digwyddiad, ac wedi gweithredu dull gwersi a ddysgwyd.

Atodiad 1

Argymhellion asesiad strwythuredig 2014 a chrynodeb o'r cynnydd

Nodir isod argymhellion asesiad strwythuredig 2014, a chrynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob argymhelliad.

Argymhelliad

Crynodeb o'r cynnydd a adroddwyd gan reolwyr i'r Pwyllgor Archwilio, hyd fis Hydref 2015

Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch cynnydd

Cynllunio a rheoli ariannol

A1 Adeiladu ar ddull presennol y Bwrdd Iechyd drwy ddatblygu cynlluniau arbed tactegol tymor hwy

Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi'r newyddion diweddaraf am amrywiaeth o gamau a gymerwyd yn gysylltiedig ag argymhelliad 1:

- CTCl - canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau gwasanaeth - gan gynnwys modelau gwasanaeth gwahanol - cynlluniau'r gweithlu a chynlluniau ariannol ar gyfer y tymor canolog;
- gweithredu Cynlluniau Newid Strategol a ffrydiau gwaith â ffocws er mwyn creu arbedion ariannol a gwasanaethau mwy cynaliadwy (ee, Gofal Iechyd Parhaus, Rheoli Meddyginiaethau);
- defnyddio arian wedi'i dargedu i gefnogi newid systemau er mwyn creu gwasanaethau mwy cynaliadwy, ee, cyllid gofal sylfaenol a'r Gronfa Gofal Canolraddol (CGC);
- mae'r Bwrdd wedi sefydlu cronfa newid strategol i gefnogi newid i wasanaethau sy'n gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol yn gysylltiedig â'r CTCl;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi manteisio ar gyllid Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru (ee, y gyfran olaf o gyllid ar gyfer cofnodion iechyd digidol); a
- chymhwyso dull gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth - gan gynnwys cymhwyso TDABC (Costau Seiliedig ar Weithgarwch a Ysgogir gan Amser) - i amryw o lwybrau cleifion, gan gynnwys osteoarthritis y ben-glin a thele-dermatoleg.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da, a bydd angen iddo gynnal hyn nes cyhoeddi fersiwn nesaf ei CTCl a thu hwnt.

Argymhelliad	Crynodeb o'r cynnydd a adroddwyd gan reolwyr i'r Pwyllgor Archwilio, hyd fis Hydref 2015	Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch cynnydd
A2 Archwilio'r potensial i gynhyrchu incwm	Mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig ag argymhelliad 1 ac felly mae ffrydiau ariannu wedi cael eu defnyddio i annog a chefnogi gwaith i newid gwasanaethau yn unol â'r camau uchod. (Gweler yr esiamplau uchod).	Nid yw'n glir eto fod ymateb y Bwrdd Iechyd i argymhelliad 1 hefyd yn rhoi digon o sicrwydd ei fod yn manteisio hyd yr eithaf ar y potensial i gynhyrchu incwm.
Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes		
A3 Sicrhau digon o allu cynllunio er mwyn galluogi a hyrwyddo datblygiad CTCI y Bwrdd Iechyd a'r cynlluniau adrannol a gwasanaeth angenrheidiol sy'n sail i hynny.	<p>Cafodd y CTCI, a oedd yn seiliedig ar CNGau a chynlluniau adrannol, ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn sgil camau i gryfhau'r dull cynllunio'n raddol, cafwyd mwy o hyder yn y Weithrediaeth ac ar y Bwrdd yn y broses gefnogol a'r cynllun canlyniadol.</p> <p>Mae'r Tîm Cynllunio wedi mabwysiadu dull partner busnes, gydag unigolion yn rhannu eu harbenigedd ynghylch datblygu CNGau corfforaethol penodol a chynlluniau adrannol unigol, ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau eraill. Darparwyd cymorth dros dro o fewn y Tîm i gefnogi proses gynllunio 2015-16, yn lle dau aelod a oedd ar secondiad. Mae'r unigolion ar secondiad bellach wedi datblygu'n weithwyr parhaol yn eu rolau eraill, gan roi cyfle, yng nghyd-destun penodiad arfaethedig Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad parhaol, i adolygu strwythur y tîm cyn diwedd 2015-16.</p> <p>Mae'r Tîm Cynllunio, ar y cyd â swyddogaethau eraill Corfforaethol fel perfformiad, y gweithlu a chyllid, yn rhoi cymorth gweithredol i Adrannau ac i'w harweinwyr cynllunio dynodedig. Er na arweiniodd y CTCI at gynlluniau tactegol wedi'u blaenoriaethu, cydnabyddir bod cynlluniau'n amrywio yn ôl y graddau yr oeddent yn disgrifio canlyniadau clir mesuradwy. Mae hynny wedi'i nodi'n flaenoriaeth ar gyfer gwella yng nghylch cynllunio 2016-17. Mae dyfodiad y Pwyllgor Cynllunio a Newid Strategol wedi cryfhau trefniadau'r Bwrdd i oruchwylio'r gwaith ar gyfer datblygu, cymeradwyo, cyflawni a rhoi sicrwydd ynghylch y CTCI.</p>	Mae cynnydd da wedi'i wneud ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd gynnal y momentwm hwn.

Argymhelliad	Crynodeb o'r cynnydd a adroddwyd gan reolwyr i'r Pwyllgor Archwilio, hyd fis Hydref 2015	Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch cynnydd
<p>A5 Adeiladu ar drefniadau da presennol y pwyllgor ansawdd a diogelwch cleifion drwy lunio Fframwaith Sicrwydd Ansawdd clir a chryno.</p>	<p>Gwerthfawrogi y ffaith bod a wnelo trefniadau blaenorol y Pwyllgor Diogelwch Cleifion ag ansawdd, ond mae gwaith wedi cael ei yflawni dros y flwyddyn ddiwethaf i drefnu cyfarfodydd o amgylch y meysydd eang 'ansawdd a diogelwch cleifion', yng nghyswllt dysgu a gwella.</p> <p>Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol yn amlinellu'r prosesau hyn, yn ogystal â'r modd yr ydym am geisio cyfleu wrth y cyhoedd a'n rhanddeiliaid ein hymrwymiad fel sefydliad at yr agenda ansawdd a'n penderfyniad i ddysgu. Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol unwaith eto wedi cael ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid allweddol drwy adborth oddi wrth y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Mae'r Adran Archwilio Mewnol wedi rhoi asesiad cadarnhaol ar y Datganiad, yn erbyn canllawiau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Y pwyslais mewn perthynas â chanlyniadau'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion ac is-bwyllgorau eraill yw dysgu a gwella'n barhaus, gan roi sicrwydd pan fydd hi'n ymddangos bod angen gwella gwasanaethau, fod hynny'n cael ei gydnabod yn glir a sicrwydd ynghylch camau fydd yn datrys y broblem. Eir ar drywydd y rhain yn yr is-bwyllgorau ar gyfer trafodaethau grŵp gweithredol.</p> <p>Mae strwythur yr agenda ar gyfer y Pwyllgor wedi parhau i gael ei ddatblygu a'r ffocws ynddo wedi newid i ganolbwyntio ar y meysydd allweddol hyn. Mae mwy o waith yn cael ei gyflawni drwy'r Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion i ganolbwyntio ar faterion sicrwydd, yn enwedig o waith is-bwyllgorau a meysydd risg allweddol, er mwyn amlygu'r materion hyn, ond hefyd i symleiddio'r agenda er mwyn cefnogi adroddiadau eithrio.</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd, ond mae angen iddo barhau i sicrhau bod gan ei Grŵp Gweithredol ar Ansawdd a Diogelwch Cleifion ddulliau gwell i roi sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion.</p>

Argymhelliad	Crynodeb o'r cynnydd a adroddwyd gan reolwyr i'r Pwyllgor Archwilio, hyd fis Hydref 2015	Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch cynnydd
<p>A6 Adolygu'r wybodaeth a dderbynnir gan y Bwrdd er mwyn sicrhau ymdriniaeth briodol.</p>	<p>Newidiwyd fformat y Bwrdd lechyd ar gyfer adroddiadau Bwrdd yn ystod y flwyddyn, i ddarparu gwybodaeth fanylach ar ganlyniadau a dangos y cysylltiadau â chanlyniadau mewn perthynas a'r CTCI. Mae dull penodol i adrodd ar y CTCI a rhoi'r newyddion diweddaraf yn ei gylch wedi'i ychwanegu fel eitem sefydlog. Mae'r Adroddiad ar Berfformiad wedi cael ei ddatblygu ymhellach i greu fformat newydd â chysylltiadau agosach â blaenoriaethau'r CTCI. Mae'r dull hwn hefyd wedi cael ei adlewyrchu ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Bwrdd lechyd. Mae adolygiad chwe-misol ffurfiol hefyd wedi cael ei sefydlu lle asesir yr holl gamau a phenderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd, a lle asesir yr allbynnau a'r canlyniadau. Lluniwyd y cyntaf o'r adroddiadau hyn yn gynharach yn y flwyddyn, a bydd adroddiad arall yn cael ei lunio ym mis Tachwedd. Mae angen gwneud gwaith ychwanegol, fodd bynnag, i sicrhau bod penderfyniadau'r Bwrdd yn fwyfwy clir o ran y canlyniadau a ddisgwylir, gan mai penderfyniadau sy'n rhoi sylw i broses yw llawer o benderfyniadau'r Bwrdd ar hyn o bryd.</p>	<p>Rydym yn cydnabod gwelliannau cadarnhaol yn y maes hwn, ond mae'r gwaith yn parhau, a bydd hi'n cymryd mwy o amser i'w ymwreiddio.</p>
<p>A7 Gwella rheolaeth y Bwrdd a Phwyllgorau ar risg</p>	<p>Mae gweithdy wedi cael ei drefnu i'r Bwrdd gyda'r Rhwydwaith Rheolwyr Risg ar 21 Hydref 2015. Elfen allweddol o'r gweithlu fydd archwilio, ar y cyd â'r Bwrdd, ei ddull o ymdrin â risg a'i awydd a risg, a chysylltiadau rhwng hynny a'i ddull cyfredol o ymdrin â blaenoriaethau a gwneud penderfyniadau. Cynhelir y gweithdy gan ymgynghorwyr allanol.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn cyflawni gwaith i wella cysondeb y sgoriau risg a fframwaith y Gofrestr Risg Gorfforaethol a Chofrestrau Risg y Pwyllgorau. Mae gwaith datblygu pellach wedi cael ei gyflawni er mwyn cynnwys Rigiâu lechyd Cyhoeddus ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Bwrdd.</p>	<p>Cymerwyd camau priodol hyd yma.</p>
<p>Ffactorau sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau</p>		
<p>A4 Datblygu dulliau ymgysylltu clinigol er mwyn sicrhau ansawdd a fforddiadwyedd llwybrau cleifion.</p>	<p>Ceir ymgysylltiad clinigol helaeth wrth fodelu a thrawsnewid llwybrau gwasanaeth. Bydd rhan helaeth o'r gwaith hwn yn digwydd gyda'r Tîm Dyfodol Clinigol a'r Tîm Cynllunio, ond drwy wahanol ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys Fforwm Arweinyddiaeth a gwaith llwybrau'n seiliedig ar Gyfarwyddiaethau yn sawl maes sydd hefyd yn gysylltiedig â'r agenda darbodusrwydd. Yn y maes hwn, mae llawer Rwydweithiau Cymunedol Cymdogaethol a thimau gofal sylfaenol yn cyflawni gwaith penodol, yn enwedig ym maes diabetes a meddygaeth anadlol.</p>	<p>Rydym yn cydnabod bod y trefniadau cadarnhaol eisoes ar waith, ond hefyd y bydd angen datblygu'r trefniadau ymhellach.</p>

Argymhelliad	Crynodeb o'r cynnydd a adroddwyd gan reolwyr i'r Pwyllgor Archwilio, hyd fis Hydref 2015	Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch cynnydd
<p>A8 Datblygu dull clir o reoli newid</p>	<p>Wrth ddatblygu ei CTCI ar gyfer 2015-16, mabwysiadodd y Bwrdd lechyd fframwaith a sicrhaodd eglurder ynghylch atebolrwydd y Weithrediaeth, ynghyd ag arweinwyr rheoli a chynllunio ar gyfer pob un o'r 10 o CNGau. Mae fframwaith cyflawni wedi cael ei lunio er mwyn sicrhau eglurder ynghylch y cerrig milltir allweddol, a sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro mewn modd systematig drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar raglen. Fe'i defnyddir i adrodd wrth y Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgor Cynllunio a Newid Strategol, y Bwrdd a Llywodraeth Cymru ar gynnydd wrth gyflawni'r CTCI. Datblygwyd y CTCI ar ôl ymgysylltu'n helaeth â phartneriaid mewnol ac allanol, gan gynnwys y Cyngor Iechyd Cymunedol, y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, y Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol a Fforwm Partneriaeth yr Undeb Llafur. O adolygu'r broses gyda'r olaf o'r rhain, gwelwyd fod y trefniadau ar gyfer ymgysylltu, er eu bod yn ardderchog ar lefel gorfforaethol, yn llai effeithiol ar lefel adrannol neu Gyfarwyddiaeth, a nodwyd hyn fel rhywbeth i'w ddatrys wrth ddatblygu CTCI 2016-17. Mae capasiti'r Bwrdd Iechyd i ymgysylltu wedi cael ei atgyfnerthu drwy benodi Cyfarwyddwr Ymgysylltu Cysylltiol, fydd yn ategu dulliau cyfathrebu corfforaethol hen sefydledig y Bwrdd Iechyd oddi mewn ac oddi allan i'r sefydliad.</p> <p>Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo Strategaeth Datblygu Trefniadol er mwyn cefnogi newid trefniadol a newid diwylliant ar draws y sefydliad.</p> <p>Er bod cadernid Cynlluniau Adrannol yn amrywio rhywfaint, darparai nifer ohonynt gynlluniau manwl a briodolai enillion ar fuddsoddiad a chynlluniau cyflawni clir, wedi'u cefnogi gan drefniadau monitro wedi'u hymwreiddio mewn Adrannau ac enghreifftiau o alinio â'r cynlluniau newid traws-sefydliadol. Mae'r strwythur cyflawni adrannol wedi cael ei atgyfnerthu ar ôl Penodi Prif Swyddog Gweithredu parhaol, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi dwyn Adrannau i gyfrif drwy fframwaith cyflawni sy'n integreiddio cynllunio, perfformiad, y gweithlu a chyllid.</p>	<p>Rydym yn cydnabod y trefniadau cadarnhaol a ddatblygwyd yn ddiweddar, ond hefyd yn cydnabod y bydd angen datblygu'r trefniadau ymhellach a'u hymwreiddio'n rhan o waith Dyfodol Clinigol i drawsnewid gwasanaethau.</p>

Argymhelliad	Crynodeb o'r cynnydd a adroddwyd gan reolwyr i'r Pwyllgor Archwilio, hyd fis Hydref 2015	Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch cynnydd
<p>A8 Datblygu'r trefniadau angenrheidiol i gefnogi dyluniad y sefydliad er mwyn cefnogi gwaith i gyflawni nodau Bwrdd Iechyd y Brifysgol drwy'r CTCI.</p>	<p>Arweiniodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad Dros Dro ddatblygiad CTCI y Bwrdd, gyda chefnogaeth grŵp amlddisgyblaethol yn deillio o'r swyddogaethau corfforaethol, a adroddai i'r Tîm Gweithredol. Cytunodd y Tîm Gweithredol ar fframwaith cynllunio'r Bwrdd Iechyd (10 o Gynlluniau Newid Gwasanaeth), ac ychwanegwyd at gyd-atebolrwydd y Weithrediaeth drwy bennu Swyddogion Gweithredol unigol i fod yn atebol am Gynlluniau Newid Gwasanaeth penodol. Fel y disgrifiwyd uchod, ceir arweinwyr rheolaethol a chynllunio penodol ar gyfer y Cynlluniau Newid Gwasanaeth, sydd wedi'u grymuso i gyflawni'r cynlluniau penodol dan sylw. Yn ogystal â hyn, ceir strwythurau cyfochrog sy'n cefnogi Rhaglen Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Yn rhan o'r rhaglen honno, mae gwaith wedi cael ei gwblhau ar draws yr holl arbenigeddau clinigol (gofal aciwt, gofal yn y gymuned a gofal sylfaenol) ar y modelau clinigol fydd yn cyflawni'r Strategaeth Dyfodol Clinigol. Mae'r rhain yn integreiddio'n llwyr y cynlluniau ar gyfer gwasanaethau, y gweithlu, cyllid a chapasiti, ac mae cynlluniau manwl y Bwrdd Iechyd yn gyson â'r modelau a ddatblygwyd gan Raglen De Cymru a Chydweithrediaeth Iechyd De Cymru. Ystyrir bod y cynllun canlyniadol i'r gweithlu'n ddichonadwy, a'i fod yn gyson â disgwyliadau'r Ddeoniaeth ar gyfer hyfforddeion meddygol.</p>	<p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn gallu adeiladu ar hyn er mwyn sicrhau bod llwybrau gofal integredig cynaliadwy yn cael eu datblygu ar draws gwasanaethau gofal sylfaenol, gofal aciwt a gofal yn y gymuned, yn rhan o'r strategaeth dyfodol cynaliadwy.</p>

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru